

Arolygiadau o Bractisau Deintyddol Cyffredinol

Arolygiad (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Tre-gŵyr, Bae Abertawe

Bwrdd Iechyd Prifysgol

Dyddiad arolygu: 4 Chwefror 2019

Dyddiad cyhoeddi: 6 Mai 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	Error! Bookmark not defined.
2.	Crynodeb o'n harolygiad	Error! Bookmark not defined.
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	Error! Bookmark not defined.
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	Error! Bookmark not defined.
4.	Beth nesaf?.....	Error! Bookmark not defined.
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	Error! Bookmark not defined.
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	Error! Bookmark not defined.
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Tre-gŵyr yn 1 Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 4BT, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 4 Chwefror 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, (gan gynnwys un arweinydd, ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Tre-gŵyr yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i gefnogi'r cleifion a'r staff.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion ac roedd y staff yn cael eu cefnogi i roi cyngor da ar iechyd y geg a gwybodaeth gynhwysfawr am driniaethau er mwyn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus am iechyd eu ceg.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis yn rheoli ac yn arwain yn gadarn
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion a oedd yn nodi eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y deintyddfeydd yn cael eu cadw i safon uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis gyfathrebu canlyniadau'r holiaduron y maent yn eu dosbarthu â'i gleifion.
- Rhaid i'r practis sicrhau y caiff yr holl gofnodion eu cadw'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

4. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Tre-gŵyr yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Tre-gŵyr. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, un hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol, gan gynnwys dwy dan hyfforddiant, dau dderbynydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod Practis Deintyddol Tre-gŵyr yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn y practis deintyddol yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i roi cymorth i gleifion i wneud dewisiadau effeithiol ynglŷn ag iechyd da yn y geg ac opsiynau triniaeth yn ôl yr angen. Roedd awyrgylch croesawgar yno, ac roedd y staff yn gwneud ymdrech ymwybodol i wneud i'r cleifion ymlacio a theimlo'n gartrefol o'r eiliad yr oeddent yn cyrraedd.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 41 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a wnaed gan y cleifion yn yr holiaduron roedd y canlynol:

"Mae'r staff i gyd bob amser yn barod iawn i helpu. Yn fodlon iawn ar y gofal yn y practis hwn"

"Mae'r practis wedi bod yn help mawr wrth ddelio â'm hofn o'r "deintydd", ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny!"

"Mae ystafell ar y llawr gwaelod ar gael, os oes angen. Mae'r gofal cyffredinol a roddir gan staff y dderbynfa yn wych – maen nhw'n wir yn gwrandao ar eich gofynion ac yn ennyn eich hyder, ac mae'r gofal a roddir gan y tîm deintyddol yn ardderchog!"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd pob un o'r cleifion a wnaeth sylwadau yn fodlon ar y gwasanaeth ac ni awgrymwyd unrhyw welliannau.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros ynglŷn â thriniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, yn ogystal â gwybodaeth gynhwysfawr am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd hon yn enghraifft dda o'r practis yn helpu cleifion i ddiogelu iechyd a hylendid y geg.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn mynd â chlaf i ddeintyddfa wag petai angen cael sgwrs breifat ag ef. Nodwyd bod gan y practis bolisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol ar waith hefyd i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym fod 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ ar gael i gleifion ar gais yn y dderbynfa. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, gan nodi hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Lle'r oedd yn gymwys, dywedodd y cleifion hefyd eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion yn yr ardal aros, a'i bod yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am y practis. Gwelsom bosteri yn dangos costau triniaethau preifat a chostau triniaethau'r GIG wedi'u harddangos ar gefn y drws sy'n arwain i'r dderbynfa. Roedd llawer o daflenni am driniaethau a phroblemau deintyddol er mwyn helpu cleifion i wneud penderfyniadau gwytodus am iechyd y geg ac opsiynau triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Roedd y practis yn gweithio'n ddwyieithog gan ddarparu gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac roedd ganddo staff dwyieithog ar gyfer y rheini a oedd am sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofal amserol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'i harddangos wrth fynedfa'r practis ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, petai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn caniatáu iddynt aildrefnu petai angen iddynt wneud hynny.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur, ond un, fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod yr opsiynau triniaeth wedi cael eu cofnodi ar yr holl gofnodion a welsom. Roedd hyn yn dangos bod cleifion yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau triniaeth.

Hawliau pobl

Roedd y practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn gan fod un ddeintyddfa a'r ardal aros ar y llawr gwaelod. Roedd toiled y cleifion yn gwbl hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd y deintyddfeydd eraill ar y llawr cyntaf, ynghyd ag ystafell yr hylenydd, ac felly nid oeddent yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Dywedodd y staff wrthym pe bai angen i'r hylenydd drin claf ag anawsterau symudedd, y byddai'n ei drin yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod.

Gwelsom fod sawl polisi ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion, gan gynnwys polisi derbyn cleifion a pholisi cyfle cyfartal. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd blwch awgrymiadau yn y practis lle y gallai'r cleifion adael sylwadau am y gwasanaeth. Roedd y practis yn ystyried y rhain ddwywaith y flwyddyn, ac yn cynnal archwiliad o'r camau a gymerwyd o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, nid oedd y camau hyn yn cael eu cyfleu i'r cleifion; dylai'r practis sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r sylwadau.

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith a oedd yn cydymffurfio â rhaglen Gweithio i Wella² y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Roedd y cofnodlyfr cwynion yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cofnod cyfoes o'r achosion, y canlyniadau a'r camau dilynol a gymerwyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis rannu canlyniadau'r holiaduron â'r cleifion.

²http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Nodwyd gennym fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol, a bod trefniadau ar waith i drin y cleifion yn ddiogel.

Roedd contractau hefyd ar waith ar gyfer trin a thrafod gwastraff ac offer miniog yn ddiogel er mwyn diogelu'r cleifion a'r staff rhag niwed.

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cadw cofnodion yn unol â'r safonau proffesiynol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd mwyafrif helaeth y cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Roedd y tu allan i'r adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y tu mewn i'r adeilad yn lân, yn fawr ac yn olau, ac yn cynnig amgylchedd croesawgar i'r cleifion. Roedd toiled, cyfleusterau newid a storfa bwrpasol ar gael i'r staff eu defnyddio.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag asesiadau risg amrywiol, megis tân, amgylcheddol ac iechyd a diogelwch. Roedd pob asesiad risg yn gyfredol a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Nodwyd bod polisiâu newydd yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm ac yna byddai'r staff yn cytuno iddynt ac yn eu llofnodi. Golygai hyn fod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y polisiâu a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i'w cefnogi yn eu rolau.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad, a gwelsom fod yr offer hwnnw wedi'i wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod y staff wedi trafod gweithdrefnau a chyfrifoldebau unigol pe bai tân, nodwyd gennym nad oedd yr un o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi cael hyfforddiant tân ffurfiol gan ddarparwr priodol. Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant tân priodol er mwyn diogelu'r cleifion a'r staff os bydd tân.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol hyd nes iddo gael ei gasglu.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002³, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis brotocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) a pholisi ar gyfer trin a thrafod mercwri.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân priodol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁴, a oedd yn lân, yn drefnus ac yn cynnwys adnoddau da yn ein barn ni. Dangosodd y staff y broses dihalogi a gwelsom fod gweithdrefnau addas ar waith i lanhau, sterileiddio a storio offerynnau. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn eu hamddiffyn rhag anaf a/neu haint.

³ http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/ocs/200-299/273_20/

⁴ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM%2001-05%20Revision%201.pdf>

Gwelsom dystiolaeth fod y protocol ar gyfer archwilio cyfarpar sterileiddio ar gael ac yn gyfredol, a bod polisi rheoli heintiau a pholisi diogelwch offer miniog ar waith i'r staff, gan olygu bod y staff a'r cleifion yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag anafiadau a heintiau a achosir gan nodwyddau.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar reoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05 hyd at yr archwiliad diwethaf yn 2016. Gwnaethom argymhell bod archwiliad newydd yn cael ei gynnal ar gyfer rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod y practis yn asesu ei drefniadau dihalogi yn barhaus.

Roedd y deintyddfeydd yn amlwg yn lân ac yn daclus ac roedd gan y practis amserlen lanhau ddyddiol i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael eu cadw'n unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag anafiadau a achosir gan offer miniog. Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag anafiadau a heintiau a achosir gan nodwyddau.

Gwnaethom sylwi nad oedd cyfleusterau ar gyfer cynhyrchion mislif yn y toiledau. Rhaid i'r practis drefnu bod bin o'r fath yn cael ei osod.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwneidd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Gwnaethom argymhell bod archwiliad newydd ar gyfer rheoli heintiau yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod y practis yn gofalu am ddiogelwch y cleifion yn

⁵ www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM_01-05_Revision_1.pdf

barhaus.

Rhaid i'r practis drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn yr ystafell ymolchi

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau a oedd yn disgrifio sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion. Gwelsom fod gan y practis bolisi dadebru ar waith a bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddadebru cardio-anadlol (CPR) brys.

Roedd y practis wedi penodi tri swyddog cymorth cyntaf a allai ddarparu gofal cymorth cyntaf pe byddai damwain neu anaf. Fodd bynnag, nid oedd dau o'r swyddogion cymorth cyntaf penodedig wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ers 2014. Gwnaethom gynghori y dylai'r practis sicrhau bod swyddogion cymorth cyntaf sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar y safle bob amser.

Roedd gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith mewn perthynas ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Roeddem yn fodlon bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellid mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol yn y practis. Gwelsom fod gan y practis ddau EpiPen⁶, yr oedd un ohonynt wedi dyddio. Oherwydd prinder cenedlaethol, roedd yr adran lechyd Galwedigaethol wedi cynghori'r practis i gadw'r EpiPen a oedd wedi dyddio hyd nes y byddai'n gallu cael ail un cyfredol. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw'r EpiPen a oedd wedi dyddio ar wahân i'r un newydd er mwyn osgoi dryswch mewn argyfwng. Rhoddwyd hyn ar waith yn syth.

⁶Chwistrelliad yw EpiPen sy'n cynnwys epineffrin, cemegyn sy'n culhau'r pibellau gwaed ac yn agor llwybrau anadlu yn yr ysgyfaint. Gall yr effeithiau hyn ddadwneud pwysedd gwaed isel difrifol, cosi difrifol a symptomau eraill adwaith alergaidd.

Dywedwyd wrthym fod yr holl ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau yn cael eu cofnodi drwy gynllun Cerdyn Melyn yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)⁷.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisïau diogelu cynhwysfawr ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed, a dangosodd y staff eu bod yn hyderus o ran pa gamau i'w cymryd os cyfyd pryder. Gwnaethom gynghori swyddog diogelu arweiniol y practis i ystyried cwblhau hyfforddiant diogelu lefel uwch er mwyn sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r ddealltwriaeth briodol mewn perthynas â materion diogelu ar gyfer y rôl honno.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn lân ac yn ddiogel ac yn cynnwys offer perthnasol. Yn ystod yr arolygiad gwelsom rywfaint o gyfarpar clinigol a meddyginiaethau a oedd wedi dyddio. Pan dynnwyd sylw'r practis at hyn, cafodd y rhain eu gwaredu ar unwaith. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno protocol i fonitro a chadw golwg am offer a meddyginiaethau sydd wedi dyddio yn y practis.

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel a bod archwiliadau dyddiol yn cael eu cynnal i sicrhau ansawdd y delweddau pelydr-X.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁸ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2000⁹, rydym yn disgwyl i bob aelod

⁷ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

⁸ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

o'r staff gael hyfforddiant priodol ar ddiogelu rhag ymbelydredd. Nodwyd gennym nad oedd un nyrs ddeintyddol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal triniaethau radiograffeg yn ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gyflwyno protocol ar gyfer archwilio a monitro stoc yn y deintyddfeydd.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu rhag ymbelydredd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd datganiad o ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosis a thrin cleifion. Roedd gan y practis hefyd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i ategu'r swyddogaethau hyn.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal nifer fach o archwiliadau clinigol. Er mwyn hyrwyddo diogelwch y cleifion, rydym yn argymhell bod y practis yn cynnal amrywiaeth ehangach o archwiliadau mewn perthynas â materion fel cofnodion y cleifion, rhagnodi gwrthfotigau a rhoi'r gorau i smygu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal amrywiaeth ehangach o archwiliadau clinigol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

⁹ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Roedd system ar waith gyda phractis cyfagos ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu a bod y staff yn cael cyfle i ddatblygu.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn defnyddio adnoddau gwella ansawdd fel adnodd datblygu practisau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru¹⁰ na Chanllaw Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain¹¹. Rydym yn cynghori y dylai'r practis ystyried defnyddio un o'r adnoddau hyn er mwyn helpu'r tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau, ansawdd a diogelwch, gofynion deddfwriaethol a'r ffordd y mae'n gweithio fel tîm.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod polisi rheoli cofnodion priodol ar waith er mwyn sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel yn electronig, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu.

Cadw cofnodion

Cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom fod y cofnodion o ansawdd da yn gyffredinol. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion, gwelsom fylchau yn y cofnodion yn y meysydd canlynol:

- Asesiad risg mewn perthynas â cheudodau, periodontol, traul dannedd a chanser y geg
- Hanes deintyddol blaenorol
- Hanes cymdeithasol, gan gynnwys y defnydd o alcohol a thybaco, a'r taflenni gwybodaeth am hybu iechyd y geg a roddwyd

¹⁰ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry> Mae'r Adnodd Matrics Aeddfedrwydd yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut maent yn gweithio.

¹¹ <https://www.bda.org/goodpractice> Rhaglen sicrhau ansawdd yw cynllun Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, sy'n galluogi ei haelodau i gyfleu ymrwymiad parhaus i weithio yn unol â safonau arfer da o ran cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol i'w cleifion.

- Archwiliadau o feinweoedd meddal
- Archwiliadau y tu allan i'r geg a'r tu mewn i'r geg a sgrinio ar gyfer canser
- Amllder triniaethau radiograffeg a'r cyfiawnhad drostynt
- Rhagnodi gwrthfotigau.

Argymhellwn fod yr holl ddeintyddion yn dilyn y canllawiau proffesiynol ar gadw cofnodion deintyddol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o ddulliau rheoli ac arwain da yn y practis.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis, ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'u darllen.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y Rheolwr Cofrestredig sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Tre-gŵyr¹². Mae'r gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd yn cael ei reoli gan reolwr y practis. Roedd y Rheolwr Cofrestredig hefyd yn un o'r prif ddeintyddion.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

¹² ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC¹³.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau adnoddau dynol ar waith, gan gynnwys polisi recriwtio. Roedd y staff hefyd yn cael arfarniadau rheolaidd ac roedd gan bob aelod o'r staff gynlluniau datblygu personol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gwelsom dystiolaeth fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth.

Heblaw am yr hyfforddiant y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn, gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac yn diwallu eu hanghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (CPD)

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn ac roedd staff na allant fod yn bresennol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan reolwr y practis.

¹³ O dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am ddigwyddiadau pwysig, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.

5. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Tre-gŵyr

Dyddiad arolygu: 04 Chwefror 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Tre-gŵyr

Dyddiad arolygu: 04 Chwefror 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis rannu canlyniadau'r holiaduron â'r cleifion.	6.3 Gwrando a Dysgu o adborth, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16	Rydym wedi creu adran 'sut rydym yn perfformio' ar ein hysbysfwrdd a byddwn yn defnyddio'r adran hon i rannu canlyniadau holiaduron â'r cleifion.	Ellie Parker	01/04/19
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân priodol.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliadau Deintyddiaeth	Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant tân allanol bob blwyddyn	Ellie Parker	01/08/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifafat 22			
Gwnaethom argymhell bod archwiliad newydd ar gyfer rheoli heintiau yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod y practis yn gofalu am ddiogelwch y cleifion yn barhaus. Rhaid i'r practis drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn yr ystafell ymolchi	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, WHTM 01-05	Archebu bin cynhyrchion mislif oddi wrth Cannon Hygiene. Bydd y practis yn cynnal Archwiliad Rheoli Heintiau newydd.	Ellie Parker Fiona Lane	01/04/19 01/10/19
Rhaid i'r practis gyflwyno protocol ar gyfer archwilio a monitro stoc yn y deintyddfeydd. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu rhag ymbelydredd.	Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 13	Cyflwyno rhestrau gwirio newydd ar gyfer archwilio a monitro stoc ym mhob un o'r deintyddfeydd. Caiff hyn ei rannu mewn sesiwn hyfforddi staff sydd eisoes wedi cael ei threfnu. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar radiograffeg fel rhan o'u cylch DPP	Fiona Lane Ellie Parker	09/04/19 01/05/19
Dylai'r practis gynnal amrywiaeth ehangach o archwiliadau clinigol.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 8(1)	Sicrhau bod y practis yn cynnal amrywiaeth ehangach o archwiliadau clinigol	Sara Middleton	01/10/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.	Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 20(2)	Trefnu sesiwn hyfforddi ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn cadw cofnodion yn unol â'r safonau proffesiynol, a rhoi gwybod i bawb amdani.	Sara Middleton	09/04/2019

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Ellie Parker

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 01/04/2019